# ASTUDIAETH ACHOS



## Tafarn yr Heliwr, Nefyn, Gwynedd

### *Canolfan Gymdeithasol: Bydd man digwyddiadau newydd sbon yn darparu ardal yn yr ardd i ddwyn grwpiau a theuluoedd ynghyd*

Mae Tafarn yr Heliwr yn Nefyn, Gwynedd, yn llawer iawn mwy na thafarn yn unig. Mae'n ganolfan ar gyfer tref fechan wledig sy'n cefnogi ac yn darparu cyfleoedd datblygu i drigolion yr ardal – o'u helpu i hybu eu hiechyd a'u lles, i drechu unigrwydd a dysgu sgiliau newydd.

Mae gan y Sportsman gynt, (Yr Heliwr erbyn hyn) hanes maith fel tafarn a gwesty sy'n dyddio'n ôl i ganol y 19eg ganrif

Roedd y dafarn yn rhan annatod o fywyd cymunedol yn ardal gadwraeth Nefyn am genedlaethau lawer nes iddi gau ei drysau yn 2009 yn anffodus, ynghyd â nifer o siopau a busnesau lleol eraill yn y dref.

Yn 2018, fe benderfynodd y trigolion bod taer angen ail-agor y dafarn. Llwyddodd y gymuned i brynu'r adeilad ym mis Tachwedd 2018.

Bu i'r dafarn ail-agor ei drysau i'r cyhoedd o'r diwedd ym mis Gorffennaf 2021 yn dilyn prosiect adnewyddu. Agorwyd pedair ystafell wely en suite i westeion yn ystod Pasg 2023, wedi gwaith adfer sylweddol a ariannwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

pub is the hub

## Gardd gymunedol

Fel rhan o'u hymgyrch i gefnogi trigolion yr ardal, aeth y dafarn ati i ddatblygu llain o dir gerllaw i greu gardd gymunedol. Sefydlwyd Gardd Gymunedol Yr Heliwr gan wirfoddolwyr, o dan arweiniad y dafarn, a bu iddyn nhw roi oddeutu 1,000 awr o'u hamser i gyflawni gwaith dylunio a datblygu cychwynnol ar y prosiect.

Mae nifer o drigolion Nefyn yn byw mewn tai teras bach traddodiadol gyda naill ai ychydig o ardd neu dim gardd o gwbl. Felly, mae'r ardd gymunedol yn fodd i bobl fanteisio ar ofod i dyfu eu cynnyrch eu hunain. Mae hynny yn ei dro yn arbed pres iddyn nhw ac yn gyfle iddyn nhw ganolbwyntio ar brosiect sydd o fantais i hybu eu hiechyd a'u lles. Y gobaith yn y pen draw ydy tyfu ffrwythau a llysiau organig yn yr ardd ar gyfer cegin y dafarn.

Bu'r ardd gymunedol yn boblogaidd dros ben ac erbyn hyn mae tîm o oddeutu deg o wirfoddolwyr yn gweithio i gynnal a chadw'r ardd. Sefydlwyd pwyllgor i reoli'r prosiect ac maen nhw'n cwrdd yn rheolaidd yn y dafarn. Caiff cynnyrch a phlanhigion eu gwerthu ar sail 'talwch beth y gallwch' i drigolion y gymuned, gan helpu sicrhau bod yr ardd yn gynaliadwy yn ariannol.

Mae'r dafarn yn darparu'r holl gyfarpar, a'r defnydd o'r sied a thwnnel polythen yn rhad ac am ddim. Gallai teuluoedd ddefnyddio'r cyfarpar i blant ac mae 'gwesty pryfed' i blant hefyd sy'n llawer iawn o hwyl.

*“Mae’r ystafell ddosbarth arbennig hon yn yr awyr agored yn annog trigolion yr ardal i dreulio mwy o amser gyda’i gilydd a gwirfoddoli yn yr ardd, gan fanteisio ar weithgaredd iach fyddai’n darparu bwyd fforddiadwy, maethlon.”*

**Cadeirydd Yr Heliwr, Rhodri Evans**

*“Mae’r ardd gymunedol fywiog hon a’r ardal ddigwyddiadau eisoes yn creu effaith gadarnhaol drwy ddwyn pobl ynghyd, a chynnig cyfleoedd i wneud ffrindiau a meithrin cysylltiadau newydd er mwyn trechu unigrwydd ac arwahanrwydd. Bydd yr ardal ddigwyddiadau’n cynnig mantais gymdeithasol gwerth chweil i drigolion yr ardal a’r fro.”*

**Cynghorydd Tafarn Yw’r Galon Cymru, Malcolm Harrison**

## Cyfleoedd cymdeithasol a gwirfoddol

Mae’r ardd yn cynnig llu o gyfleoedd cymdeithasol i wirfoddolwyr. Mae’r ‘garddwest’ blynyddol yn ddigwyddiad ar y cyd ag eglwys Dewi Sant a’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy’n denu dwsinau o bobl.

Roedd y gymdeithas buddiant cymunedol yn awyddus i ddwyn pobl ynghyd a chynnig gofod addas i bob tywydd ar gyfer y gwirfoddolwyr, grwpiau a theuluoedd. Gan hynny fe wnaethon nhw gysylltu gyda Tafarn Yw’r Galon am gymorth i godi gasebo i’w ddefnyddio fel ystafell ddosbarth yn yr awyr agored a man cynnal digwyddiadau.

Bu i’r cyllid hefyd dalu am waith tirlunio’r ardd a chreu gwelyau uchel sy’n addas ar gyfer gwirfoddolwyr sydd â phroblemau symudedd.

Gan fwrw iddi i greu man eistedd ffurfiol newydd yn y gasebo, gyda meinciau a chadeiriau, nod pwyllgor yr ardd ydy cynnal rhagor o weithgareddau megis gwasgu afalau, hyfforddiant i wirfoddolwyr a boreau coffi a chacen.

Bydd yr adeilad newydd yn sicrhau bod lle i gynnal rhagor o ddigwyddiadau a chyfarfodydd yn yr ardd, gan gynnig cyfle i grwpiau gymdeithasu mewn ardal dawel. Gallai hyn yn ei dro fynd i’r afael ag unigrwydd gwledig a rhoi hwb i les y trigolion.

Mae hefyd cynlluniau ar waith i greu pwll er mwyn denu madfallod dŵr, llyffaint a brogaod yn ôl i’r safle. Y gobaith hefyd ydy y bydd ychwanegu blodau gwyllt a glaswelltau gwlypdir yn ategu’r cynefin hwn ac yn cynnig lloches i nadroedd defaid ac ymlusgiaid eraill.







